GIG CYMRU
NHS WALES

# Eich gwybodaeth
# Eich hawliau

## Yr hyn sydd angen i **chi** ei wybod

Mae'r daflen hon yn esbonio pam fod y **GIG yng Nghymru'n** casglu gwybodaeth amdanoch a sut byddwn yn ei defnyddio o bosibl

# Pam fod y **GIG yng Nghymru'n** casglu gwybodaeth amdanoch chi?

## I'ch helpu **chi**

Mae nifer o sefydliadau'r GIG fel ysbytai, meddygfeydd teulu, deintyddion, optegwyr a fferyllwyr cymunedol yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl Cymru.

Nod y bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yw darparu gofal o'r ansawdd gorau. I gyflawni hynny, rhaid iddynt gadw cofnod o'ch gofal iechyd ac unrhyw driniaeth maen nhw'n ei darparu i chi. Rydym yn cadw eich gwybodaeth ar gyfrifiadur neu gofnod ysgrifenedig, weithiau'r ddau. Mae'r cofnodion hyn yn helpu i arwain a rheoli'r gofal rydych chi'n ei dderbyn.

Y nod yw sicrhau:

- bod gan y bobl sy'n cyfrannu at eich gofal wybodaeth gywir a chyfredol er mwyn asesu eich iechyd a phenderfynu pa driniaeth neu ofal sydd ei angen arnoch, a phryd a ble y byddwch yn ei dderbyn. Efallai eu bod nhw'n rhan o dîm gofal iechyd neu wasanaeth cymorth sy'n darparu eich gofal
- eich bod chi'n cael eich gwahodd i gael triniaeth sylfaenol, fel imiwneiddiadau a rhaglenni sgrinio perthnasol
- bod sail dda ar gyfer asesu'r math o ofal rydych chi'n ei dderbyn, a'i ansawdd. Bydd hynny'n arwain at well gofal i chi a chleifion eraill yn y dyfodol
- os oes angen i chi gyflwyno cwyn am y gofal rydych chi'n ei dderbyn, bydd eich pryderon a'ch cwynion yn cael eu harchwilio'n drylwyr

Pan fyddwn yn casglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn sicrhau ei bod yn cael ei phrosesu yn unol ag o leiaf un o'r seiliau cyfreithiol sydd ar gael i ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol gyda'ch caniatâd, neu'n unol â'r gyfraith a dim ond pan fod angen gwneud. Er enghraifft, os oes rhwymedigaeth gyfreithiol arnom fel awdurdod cyhoeddus a/neu er mwyn gweithredu ein swyddogaeth neu wrth berfformio tasg er budd y cyhoedd.

Mae'n bosibl eich bod yn derbyn gofal gan sefydliadau allanol nad ydynt yn rhan o GIG Cymru, er enghraifft ysbytai sy'n rhan o GIG Lloegr, gwasanaethau cymdeithasol, neu ddarparwyr gofal iechyd preifat neu wirfoddol. Os felly, bydd angen rhannu gwybodaeth amdanoch er mwyn sicrhau bod pawb sy'n cyfrannu at eich triniaeth neu'ch gofal yn gallu cydweithio i'ch cynorthwyo. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y gallu i ddilysu a chadarnhau eich canlyniadau gyda'r darparwyr eraill er mwyn llywio comisiynu gwasanaethau yn y dyfodol ar eich rhan, ac i sicrhau bod costau priodol y gwasanaethau perthnasol yn cael eu cyfrifo.

Pan fyddwn yn ei defnyddio, mae'r GIG yng Nghymru'n rhannu eich gwybodaeth mewn ffordd gwbl gyfrinachol.

Byddwn yn sicrhau:

- mai'r lleiafswm gwybodaeth sydd ei angen a fydd yn cael ei rannu
- bod unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth amdanoch wedi ymrwymo i'w chadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel, ac i'w defnyddio at ddiben(ion) penodol yn unig
- y bydd cytundebau rhannu gwybodaeth sy'n bodoli rhwng sefydliadau yn rheoli'r ffordd y caiff eich gwybodaeth ei rhannu
- bod systemau diogel mewn lle i atal mynediad anawdurdodedig at eich gwybodaeth

Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol cyhyd ag y mae angen i ni ei wneud, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu darparu ein gwasanaethau a gwneud yn siŵr ein bod yn darparu'r gofal gorau posibl i chi. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn unol â gofynion cyfreithiol a'r gyfraith. Pan nad oes angen eich gwybodaeth arnoch fwyach, byddwn yn ei dileu mewn ffordd ddiogel.



## I helpu'r **GIG yng Nghymru**

Weithiau, byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth i'n cynorthwyo ni i redeg a gwella'r GIG yng Nghymru trwy:

- adolygu'r gofal a ddarperir i gleifion er mwyn sicrhau ei fod o'r safon gorau posibl
- sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio er mwyn diwallu anghenion cleifion yn y dyfodol
- archwilio cwynion, hawliadau cyfreithiol a digwyddiadau o bwys
- gwirio ac adrodd ar ba mor effeithiol mae'r GIG yng Nghymru wedi bod yn perfformio
- sicrhau bod y GIG yng Nghymru yn darparu gwerth am arian

Os defnyddir eich gwybodaeth, a lle mae hynny'n bosibl, bydd y math o wybodaeth sy'n gallu cael ei ddefnyddio i'ch adnabod chi, fel eich enw, cyfeiriad a dyddiad geni, yn cael ei ddileu. Gelwir y broses o ddileu unrhyw wybodaeth sy'n eich adnabod yn anonymeiddio. Os nad yw hynny'n bosibl, mae rheolau a chontractau'n bodoli er mwyn sicrhau bod gwybodaeth cleifion yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Weithiau, rhaid i ni ddefnyddio sefydliadau tu allan i'r GIG yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth ar ein rhan. Er enghraifft, at ddiben archwilio neu gynnal a chadw systemau cyfrifiadurol pan fod angen storio llawer o wybodaeth ar gyfrifiadur. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r sefydliadau allanol ddiwallu rheolau llym y GIG sy'n gysylltiedig â diogelu a diogelwch eich gwybodaeth.

## I helpu'r **eraill**

Mae'n bosibl y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio i ddiogelu a gwella iechyd pobl eraill, ac i helpu i greu gwasanaethau newydd. Byddwn yn gwneud hynny'n unol â chyfreithiau diogelu data bob amser.

Lle bo angen ac er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r bobl sy'n cyfrannu at eich gofal rannu gwybodaeth bersonol â sefydliadau penodol, er enghraifft os oes gennych afiechyd heintus a allai beryglu diogelwch eraill (e.e. llid yr ymennydd acíwt, y pâs neu'r frech goch).

Mae angen gwybodaeth ar rai gwasanaethau er mwyn cefnogi ymchwil feddygol a darganfod sut mae afiechydon yn datblygu.

Bydd hynny'n sicrhau:

- bod sefydliadau gofal iechyd yn gallu cynllunio ymlaen a darparu'r gwasanaethau cywir i'r bobl gywir
- bod hi'n bosibl gwneud cynnydd o ran diagnosis a rheoli afiechydon
- bod hi'n bosibl cynhyrchu cyffuriau yn fwy effeithiol, er enghraifft i leihau sgil-effeithiau

Lle mae hynny'n bosibl, byddwn yn anonymeiddio eich gwybodaeth. Mewn achosion lle mae angen i ni allu eich adnabod, byddwn yn cydymffurfio â rheolau cyfrinachedd llym.



## Cyfreithiau diogelu data **a'ch hawliau chi**

Mae yna gyfreithiau sy'n darparu hawliau penodol i unigolion mewn perthynas â phrosesu gwybodaeth bersonol.

Ym maes iechyd, mae'r hawliau hyn yn cynnwys yr hawl i:

- gael eich hysbysu o'r rhesymau pam rydym ni'n casglu ac yn defnyddio'ch gwybodaeth. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod y wybodaeth rydym ni'n ei defnyddio yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol at ddiben penodol, ac i un ai eich hysbysu chi neu i ofyn am eich caniatâd os byddwn yn ei ddefnyddio at ddiben gwahanol
- un ai weld neu dderbyn copi o'ch cofnodion iechyd (ysgrifenedig neu ar gyfrifiadur)
- cywiro unrhyw wybodaeth wallus sydd gennym amdanoch. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod eich manylion yn gywir. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oes modd diwygio cofnodion yn eich cofnod iechyd, er y byddwn yn ystyried hynny fesul achos
- gwrthwynebu'r ffaith ein bod yn prosesu eich gwybodaeth, er enghraifft at ddibenion marchnata
- sicrhau nad yw eich gwybodaeth yn cael ei chadw am gyfnod sy'n hirach nag sy'n angenrheidiol
- disgwyl bod eich gwybodaeth yn cael ei gwarchod rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, dinistr neu niwed damweiniol



Nid yw pob hawl unigol o dan gyfraith diogelu data yn absoliwt. Lle mae hynny'n bosibl, byddwn yn ceisio cydymffurfio ag unrhyw gais rydym yn ei dderbyn gennych, ond mae'n bosibl y bydd angen i ni gadw a phrosesu eich gwybodaeth bersonol mewn cysylltiad ag un neu fwy o'n swyddogaethau cyfreithiol.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am yr hawliau hyn, cysylltwch â'r sefydliad GIG Cymru sy'n darparu eich triniaeth.

## Mwy o **wybodaeth**

Os hoffech chi wybod mwy am y ffordd mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio, ewch i wefan y sefydliad sy'n darparu eich triniaeth a'ch gofal neu, fel arall, siaradwch ag aelod staff.

Os oes gennych chi unrhyw bryderon am y ffordd mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, gallwch eu trafod nhw gyda'r gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am eich gofal, neu Swyddog Diogelu Data'r sefydliad.

Os ydych yn cael unrhyw drafferthion sy'n gysylltiedig â'r ffordd rydym ni'n rheoli eich gwybodaeth ac os nad ydych yn hapus â'r ymateb rydych yn ei dderbyn, mae hawl gennych gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

I gofrestru eich pryder gyda **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**:

ewch i'w gwefan **www.ico.org.uk**

neu anfonwch lythyr at:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113 (graddfa leol)